Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Canllawiau i rieni/ofalwyr pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal

**Bwriad y daflen hon yw eich helpu chi i gael gwell dealltwriaeth o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys beth sy'n digwydd yn y cyfarfodydd adolygu, ble maen nhw'n digwydd, pwy all fynd iddyn nhw a'ch rôl chi.**

## Beth yw adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal?

Mae cyfarfod adolygu plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei gynnal i drafod eich plentyn neu, os ydych chi'n ofalwr, y plentyn rydych chi'n gofalu amdano, a'i gynnydd. Mae'r adolygiad yn dod â phawb sy'n chwarae rôl ym mywyd eich plentyn, neu'r plentyn rydych chi'n gofalu amdano, at ei gilydd ac mae'n gyfle i wneud y canlynol:

• Adolygu cynllun gofal eich plentyn – y ddogfen sy'n nodi sut y bydd eich plentyn yn derbyn gofal.

• Trafod cynnydd eich plentyn yn y lleoliad.

• Gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

• Rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud am y cynlluniau ar gyfer eich plentyn neu'r plentyn rydych chi'n gofalu amdano ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

## Beth yw Cynllun Gofal?

Rhaid i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael Cynllun Gofal sy'n cael ei adolygu yn ystod y cyfarfod adolygu.

Mae'n ddogfen sy'n manylu ar anghenion eich plentyn a sut i'w diwallu. Bydd hyn yn cynnwys ble mae'n byw, ei gyswllt â theulu a ffrindiau, a'i anghenion diwylliannol, crefyddol, iechyd, addysg a hamdden. Mae'r Cynllun Gofal hefyd yn cynnwys **canlyniadau personol** eich plentyn, sef y pethau sy'n bwysig iddo a'r hyn mae eisiau ei gyflawni yn ei fywyd. Gallai hyn gynnwys er enghraifft, teimlo'n ddiogel, cadw mewn cysylltiad â'r teulu, gwneud yn dda yn yr ysgol, neu gymryd rhan mewn

gweithgareddau mae'n eu mwynhau. Bydd copi o Gynllun Gofal eich plentyn yn cael ei roi i chi, gofalwr eich plentyn a'ch plentyn (yn dibynnu ar ei oedran).

Hefyd, bydd gan blentyn sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Personol fel rhan o'r Cynllun Gofal sy'n manylu ar ei anghenion addysg, ei nodau, a'r cymorth sydd ei angen i'w cyflawni nhw. Os oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, bydd ganddo Gynllun Datblygu Unigol sy'n disgrifio anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu berson ifanc, y cymorth sydd ei angen arno, a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni.

## Pa mor aml y mae cyfarfodydd adolygu plentyn sy'n derbyn gofal yn digwydd?

Rhaid i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal o fewn pedair wythnos i'r dyddiad pan fo plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Os yw'ch plentyn yn parhau i fod yn blentyn sy'n derbyn gofal, rhaid cynnal ail adolygiad dim mwy na thri mis ar ôl hynny. Wedyn, rhaid cynnal adolygiadau bob chwe mis neu'n fwy aml os oes angen.

## Pwy fydd yn y cyfarfod adolygu plentyn sy'n derbyn gofal?

Bydd pobl allweddol ym mywyd eich plentyn yn dod i'r adolygiad, naill ai fel cyfarfod unigol neu gyfres o gyfarfodydd. Dyma'r bobl a allai fod yn bresennol;

- Eich plentyn
- Chi fel rhieni'r plentyn
- Y gofalwyr
- Athro
- Pobl eraill sy'n bwysig ym mywyd eich plentyn.

## Beth yw Swyddog Adolygu Annibynnol?

Mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn weithiwr cymdeithasol profiadol sy'n gweithio i'r Awdurdod Lleol. Yn aml, mae'r acronym Saesneg ‘IRO’ (‘Independent Reviewing Officer’) yn cael ei ddefnyddio.

Ei rôl yw cadeirio'r cyfarfod adolygu, sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a bod yr holl faterion pwysig yn cael sylw. Hefyd, bydd yn edrych yn annibynnol ar yr hyn sy'n digwydd i'ch plentyn.

## Ble mae cyfarfodydd adolygu plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal?

Fel arfer, mae adolygiadau yn cael eu cynnal yng nghartrefi gofalwyr, yr ysgol neu swyddfa, lle bynnag y mae'ch plentyn yn teimlo'n fwyaf cyfforddus i fod yn bresennol yn y cyfarfod a chymryd rhan ynddo.

## Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod adolygu plentyn sy'n derbyn gofal?

Yn y cyfarfodydd adolygu, rydyn ni'n trafod yr hyn y gall pawb ei wneud i sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel, yn iach ac yn hapus, a bod cynllun gofal eich plentyn yn gweithio a bod eich plentyn yn cael cymorth ym mhob maes o'i fywyd.

Bydd y cyfarfod yn ystyried unrhyw newidiadau ym mywyd eich plentyn ac yn trafod pob rhan o'r cynllun gofal, gan gynnwys canlyniadau personol eich plentyn. Bydd yn penderfynu a oes angen newid y cynllun a gwirio bod unrhyw gamau wedi'u cytuno mewn cyfarfodydd blaenorol wedi'u cyflawni.

Ar ôl y cyfarfod adolygu, byddwch chi'n cael adroddiad ysgrifenedig i gadarnhau'r hyn a gafodd ei benderfynu yn y cyfarfod, a beth fydd yn digwydd nesaf ac erbyn pryd.

Dylech chi gael yr adroddiad o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad.

Bydd gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn diweddaru'r cynllun gofal i gynnwys argymhellion o'r cyfarfod.

## Beth sy'n digwydd os ydych chi'n methu dod i adolygiad eich plentyn?

Os ydych chi'n methu dod i'r adolygiad, rhowch wybod i'r gweithiwr cymdeithasol am sut hoffech chi fynegi eich barn a'ch teimladau yn y cyfarfod. Efallai y bydd eithriadau pan fydd modd cynnal cyfarfodydd fel cyfres o gyfarfodydd er mwyn i chi fod yn rhan o'r broses adolygu gan fod eich cyfraniad yn werthfawr iawn.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cyfarfodydd adolygu ar gyfer eich plentyn, cysylltwch â gweithiwr cymdeithasol eich plentyn neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol.**

**Eich nodiadau:**

**………………………………………………………………………………………………**
**………………………………………………………………………………………………**
**………………………………………………………………………………………………**
**………………………………………………………………………………………………**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................